

ATODLEN 15

RHYDDHAD AR GYFER TRAFODIADAU PENODOL SY’N YMWNEUD Â THAI CYMDEITHASOL

RHAN 2

RHYDDHAD HAWL I BRYNU

Rhyddhad ar gyfer trafodiad hawl i brynu

- 2 (1) Yn achos trafodiad hawl i brynu—
 - (a) nid yw adran 19(1) (cydnabyddiaeth ddibynnol i’w chynnwys mewn cydnabyddiaeth drethadwy gan ragdybio y ceir digwyddiad dibynnol) yn gymwys, a
 - (b) nid yw unrhyw gydnabyddiaeth na fyddai ond yn daladwy pe bai digwyddiad dibynnol, neu sydd ond yn daladwy oherwydd digwyddiad dibynnol, yn cyfrif fel cydnabyddiaeth drethadwy.
- (2) Ystyr “trafodiad hawl i brynu” yw—
 - (a) gwerthu annedd am ddisgownt, neu roi les ar gyfer annedd am ddisgownt, gan gorff sector cyhoeddus perthnasol, neu
 - (b) gwerthu annedd, neu roi les ar gyfer annedd, yn unol â’r hawl i brynu a gadwyd.
- (3) Mae’r canlynol yn gyrrff sector cyhoeddus perthnasol at ddibenion y paragraff hwn—
 - (a) un neu ragor o Weinidogion y Goron;
 - (b) Gweinidogion Cymru;
 - (c) awdurdod tai lleol o fewn yr ystyr a roddir i “local housing authority” gan adran 1 o [Ddeddf Tai 1985 \(p. 68\)](#);
 - (d) landlord cymdeithasol cofrestredig;
 - (e) ymddiriedolaeth gweithredu tai a sefydlwyd o dan Ran 3 o [Ddeddf Tai 1988 \(p.50\)](#);
 - (f) corff plismona lleol o fewn yr ystyr a roddir i “local policing body” gan adran 101(1) o [Ddeddf yr Heddlu 1996 \(p. 16\)](#);
 - (g) person a bennir at ddibenion y paragraff hwn gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.
- (4) At ddibenion is-baragraff (2)(b), mae gwerthu annedd, neu roi les ar gyfer annedd, yn cael ei wneud yn unol â’r hawl i brynu a gadwyd—
 - (a) os yw’r gwerthwr yn berson y mae’r hawl i brynu o dan Ran 5 o [Ddeddf Tai 1985 \(p. 68\)](#) yn arferadwy yn ei erbyn yn rhinwedd adran 171A o’r [Ddeddf honno](#),
 - (b) os y prynwr yw’r person cymwys at ddibenion yr hawl i brynu a gadwyd, ac
 - (c) os yr annedd yw’r tŷ annedd cymwys mewn perthynas â’r prynwr.
- (5) Nid yw grant gan Weinidogion Cymru o dan adran 20 neu 21 o [Ddeddf Tai 1996 \(p. 52\)](#) (grantiau prynu mewn cysylltiad â gwarediadau am ddisgownt gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) yn cyfrif fel rhan o’r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer trafodiad hawl i brynu y mae’r gwerthwr yn landlord cymdeithasol cofrestredig neu’n ddarparwr tai cymdeithasol cofrestredig preifat mewn perthynas ag ef.

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr “landlord cymdeithasol cofrestredig” (“*registered social landlord*”) yw corff a gofrestrwyd fel landlord cymdeithasol mewn cofrestr a gedwir o dan adran 1(1) o [Ddeddf Tai 1996](#) (p. 52);

mae i “tŷ annedd cymwys” a “person cymwys” yr ystyron a roddir i “qualifying dwelling-house” a “qualifying person” gan adran 171B o [Ddeddf Tai 1985](#) (p. 68).